Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL CYNLLUNIO (CYMRU)

Datganiadau o Fwriad Polisi

Tachwedd 2014

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Cynllunio Strategol
3. Y cyfnod y mae'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn weithredol
4. Tynnu Cynlluniau Datblygu Lleol yn Ôl
5. Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd
6. Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol
7. Ceisiadau i Weinidogion Cymru: Opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru
8. Hysbysiadau o Benderfyniadau a Hysbysu am Ddatblygu: Hysbysiadau o Benderfyniadau
9. Hysbysiadau o Benderfyniadau a Hysbysu am Ddatblygu: Hysbysu am Ddatblygiadau
10. Methu â chydymffurfio â gofyniad Dilysu: hysbysiad ac apêl
11. Gorfodi: Apeliadau yn erbyn Hysbysiad sy'n Ymwneud â Thir sy'n Amharu ar Amwynder

12. Gorfodi, apeliadau ac ati: Costau ceisiadau, apeliadau a chyfeiriadau

13. Gorfodi, apeliadau ac ati: Gweithdrefn ar gyfer achosion penodol

14. Meysydd Tref a Phentref

15. Amserlen

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r datganiadau hyn o fwriad polisi yn amlinellu'r polisi presennol ar gyfer is-ddeddfwriaeth Bil Cynllunio (Cymru). Cynhelir ymgynghoriad a chreffir ar bob un o'r meysydd polisi hyn ac, felly, gallant newid. Diben y datganiadau hyn yw cynorthwyo'r Pwyllgor cyfrifol wrth iddo graffu ar Fil Cynllunio (Cymru).

1.2 Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r pwerau is-ddeddfwriaethol hyn yn hanfodol er mwyn rhagnodi materion gweithdrefnol a sicrhau hyblygrwydd yn achos materion y gall fod angen eu haddasu er mwyn eu rhoi ar waith yn effeithiol.

1.3 Manylir ar weithdrefn y Cynulliad ar gyfer pob pŵer is-ddeddfwriaethol ym mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae'r ffordd yr ymdrinnir â gweithdrefnau'r Cynulliad yn adlewyrchu'r Canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012 gan y Cwnsler Cyffredinol a'r nod yw sicrhau cysondeb. Hefyd, mae Bil Cynllunio (Cymru) yn diwygio deddfwriaeth fframwaith bresennol a ategir gan is-ddeddfwriaeth. Un ystyriaeth allweddol oedd cynnal sefydlogrwydd y system gynllunio bresennol er mwyn osgoi creu ansicrwydd neu ddrysu'r system gynllunio bresennol yng Nghymru.

1.4 Lluniwyd nifer o bapurau ymgynghori ochr yn ochr â chraffu ar y Bil a fydd yn rhoi rhagor o fanylion ar rai darpariaethau; sef:

- Rhoi pwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu: Rhan 3 Adrannau 15 ac 16; Rhan 5 Adran 35 http://wales.gov.uk/consultations/planning/frontloading-the-development-management-system/?skip=1&lang=cy
- Pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a byrddau cynllunio ar y cyd: Rhan 5 Adran 37 http://wales.gov.uk/consultations/planning/amendments-to-easements-and-other-rights/?skip=1&lang=cy
- Dylunio yn y broses gynllunio: Rhan 5 Adran 27 http://wales.gov.uk/consultations/planning/design-in-the-planning-process/?skip=1&lang=cy

2. Cynlluniau Datblygu Strategol

Pŵer/Pwerau: Rhan 2, Adran 3 a 5

[60D(1), 60I(5) a 60I(6)(f) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004]

Disgrifiad:

2.1 Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- Sefydlu Panel Cynllunio Strategol ar gyfer ardal a dynodi'r ardal hon yn ardal cynllunio strategol drwy orchymyn;
- Nodi'r darpariaethau ynghylch ffurf a chynnwys Cynlluniau Datblygu Strategol a chyfnod cynllun o fewn rheoliadau;
- Amrywio'r rhestr o faterion y mae'n rhaid i'r Panel Cynllunio Strategol eu hystyried wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol o fewn rheoliadau.

Bwriad Polisi:

2.2 Bydd y rheoliadau sy'n sefydlu Ardal Cynllunio Strategol, Panel Cynllunio Strategol (PCS) a'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ar gyfer yr ardal honno yn amlinellu'r canlynol:

- Manylion yr ardal gan gynnwys map o'r ffiniau;
- Enw'r PCS;
- Nifer yr aelodau ar y PCS gan gynnwys y rhaniad o ddwy ran o dair o aelodau awdurdod cynllunio lleol ac un rhan o dair o aelodau enwebedig sefydliadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol;
- swyddogaethau'r PCS.

2.3 Bydd y rheoliadau ar gyfer CDS yn dilyn yr un drefn â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Byddai'r rheoliadau CDS yn rhoi manylion am ffurf a chynnwys y cynllun, a sut y byddai'n cael ei baratoi. Yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, crynhoir y bwriad polisi presennol ynghylch y manylion i'w rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth isod:

Maes	Disgrifiad
Cytundeb Cyflawni gan gynnwys Amserlen Cynllun Cynnwys Cymunedau	Bydd y cytundeb cyflawni yn cynnwys dwy ddogfen: yr amserlen a'r cynllun cynnwys cymunedau. Bydd angen i'r Panel Cynllunio Strategol (corff cyfrifol) gytuno ar amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun a'r cynllun cynnwys cymunedau sy'n nodi pa randdeiliaid yr ymgysylltir ac yr ymgynghorir â hwy yn ystod proses y cynllun a sut y gwneir hynny. Bydd Gweinidogion Cymru yn cytuno ar y cytundeb cyflawni (gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau). Bydd angen i'r corff cyfrifol ddiweddaru'r cytundeb cyflawni a chyhoeddi adroddiad yn dilyn y camau ymgynghori statudol.
Ffurf a chynnwys CDS	Bydd rheoliadau yn pennu'r hyn y mae angen i'r CDS ei gynnwys, gan gynnwys ei deitl, cyfiawnhad polisïau a pha ardal a gwmpesir ganddo. Bydd angen i CDS gynnwys dyddiad terfyn ac ar ôl y dyddiad hwn ni fydd ganddo statws cynllun datblygu mwyach; y map cynigion sy'n dangos y cynigion datblygu a defnydd tir a materion ychwanegol i'w hystyried o ran ffurf a chynnwys y cynllun e.e. cynlluniau trafnidiaeth perthnasol.
Gweithdrefnau CDS	Bydd hyn yn nodi'r camau ar gyfer paratoi a mabwysiadu CDS. Ymhlith y camau bydd paratoi drafft cychwynnol o'r cynllun sy'n amlinellu'r safleoedd strategol ac yna gam arall i ymgynghori ar ddrafft mwy cyflawn a fydd yn cynnwys yr holl bolisïau a dyraniadau. Bydd y rheoliadau hefyd yn rhagnodi'r prosesau dan sylw ar gyfer pob un o'r camau hyn, gan gynnwys y broses ymgynghori a sut yr ymdrinnir â'r sylwadau a wneir; gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno'r cynllun cadarn i Weinidogion Cymru (h.y. yr Arolygiaeth Gynllunio) i'w ystyried; y gweithdrefnau ar gyfer cynnal archwiliad annibynnol o'r argymhellion rhwymol a wnaed gan yr Arolygydd a'u cyhoeddi; gweithdrefnau ar gyfer mabwysiadu'r cynllun yn dilyn adroddiad yr Arolygydd; a gweithdrefnau ar gyfer tynnu'r CDS yn ôl.
Ymyriad gan Weinidogion Cymru	Bydd y rhan hon o'r Rheoliadau arfaethedig yn ymdrin â'r weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru a'r Panel Cynllunio Strategol ei dilyn pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu defnyddio eu pwerau ymyrryd - naill ai i wneud addasiadau neu hysbysu'r corff cyfrifol na ddylai fabwysiadu'r CDS na'i alw i mewn i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun.
Adroddiadau Monitro Blynyddol	Dyma'r broses y mae'n rhaid i'r Panel Cynllunio Strategol ei dilyn wrth lunio'r Adroddiad Monitro Blynyddol a fydd yn monitro pa mor effeithiol y bu polisïau'r CDS wrth gyflawni amcanion y CDS.
Argaeledd Dogfennau	Bydd yr adran hon yn sicrhau bod y dogfennau sy'n ymwneud â'r CDS ac unrhyw broses ddiwygio ar gael i'w harolygu.
Adolygu CDS	Bydd yr adran hon yn nodi pryd y bydd adolygiad llawn o'r CDS yn dechrau (bob pedair blynedd) o'r dyddiad mabwysiadu a'r broses adolygu a ddilynir.

2.4. Caiff y rheoliadau hyn eu hategu gan ganllawiau hefyd.

Cydberthynas â phwerau eraill:

Pwerau presennol

2.5 Bydd y pwerau rheoliadau arfaethedig ar gyfer y Cynlluniau Datblygu Strategol yn dilyn yr un drefn â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 fwy neu lai. Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu diwygio ar hyn o bryd yn dilyn canlyniadau'r gwaith mireinio CDLl a bydd y rheoliadau CDS yn adlewyrchu canlyniadau'r gwaith hwn.

3. Tynnu Cynllun Datblygu Lleol yn Ôl

Pŵer: Rhan 2, Adran 11

[66A Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004]

Disgrifiad:

3.1 Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- Darparu ar gyfer rhoi hysbysiad/rhybudd a chyfarwyddyd o dan yr adran hon a hyd y cyfnod o rybudd.

Bwriad Polisi:

3.2 Y bwriad polisi yw y dylai chwe wythnos o rybudd gael ei roi cyn i awdurdod cynllunio lleol dynnu ei Gynllun Datblygu Lleol a'i holl dystiolaeth ategol yn ôl. Bydd ffurf a chynnwys yr hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol roi'r rheswm cynllunio dros dynnu cynllun yn ôl a darparu'r dolenni i'r dystiolaeth berthnasol er mwyn cyfiawnhau'r rheswm cynllunio.

3.3 Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfarwyddo'r awdurdod cynllunio lleol i roi rhagor o wybodaeth a/neu ymestyn y cyfnod o rybudd. Felly, bydd y rheoliadau yn nodi ffurf a chynnwys y cyfarwyddyd a'r cyfnod a fydd yn cynnwys nodi am ba hyd y bydd y cyfarwyddyd yn gymwys.

Maes	Disgrifiad
Cyfnod o rybudd	Bydd angen i'r awdurdod roi chwe wythnos o rybudd cyn tynnu ei gynlluniau a'i ddogfennau ategol yn ôl.
Hysbysiad Tynnu yn Ôl	Caiff yr hysbysiad tynnu yn ôl ei gynnwys yn y rheoliadau a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol roi'r rhesymau cynllunio dros dynnu'r cynllun yn ôl.

3.4. Caiff y rheoliadau hyn eu hategu gan ganllawiau hefyd.

Cydberthynas â phwerau eraill:

Pwerau arfaethedig

3.5 Bydd y ddarpariaeth hon hefyd yn gymwys i Gynlluniau Datblygu Lleol drwy adran 5 o'r Bil.

4. Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Pŵer: Rhan 2, Adran 12

[72 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (”Deddf 2004")]

Disgrifiad:

4.1 Gwna ddarpariaethau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r canlynol:

- yr amgylchiadau penodol pan na fydd is-adrannau (5) a (7) yn gymwys; mae'r is-adrannau hyn yn nodi'r broses sy'n gymwys os bydd ACLl yn rhoi'r gorau i lunio CDLl ar y Cyd fel atal yr archwiliad annibynnol;
- beth yw cynllun cyfatebol neu Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd cyfatebol at ddibenion yr is-adrannau hyn.

Bwriad Polisi:

4.2 Diben adran 72 o Ddeddf 2004 yw sicrhau na chaiff unrhyw waith a gyflawnir o dan drefniadau cydweithio; neu cyn y cydweithio; ei golli. Bydd y rheoliadau yn nodi'r amgylchiadau lle y caiff awdurdodau barhau i fabwysiadu'r cynllun sy'n cwmpasu eu hardal ar ôl i un neu ragor o'r awdurdodau a fu'n gweithio ar y cynllun ar y cyd benderfynu rhoi'r gorau iddi yn eu hardal.

Maes	Disgrifiad
Pennu amodau	Bydd y rhain yn amlinellu'r amgylchiadau lle y caiff awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu'r rhannau perthnasol o gynlluniau ar ôl i un neu ragor o'r awdurdodau a fu'n gweithio ar y cynllun ar y cyd benderfynu rhoi'r gorau i'w rhan hwy.
Diffinio cynlluniau cyfatebol neu gynlluniau datblygu lleol ar y cyd cyfatebol	Bydd y rhain yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi pa gynllun a fydd yn parhau i fod yn berthnasol i'r awdurdod cynllunio lleol penodol.

4.3. Caiff y rheoliadau hyn eu hategu gan ganllawiau hefyd.

Cydberthynas â phwerau eraill:

Pwerau Presennol ac Arfaethedig

4.4. Ceir darpariaethau sy'n ymwneud â pharatoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd yn adran 72 o Ddeddf 2004. Gallai Byrddau Cydgynllunio a sefydlwyd o dan adran 2 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu cyfarwyddo i lunio Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd ag awdurdodau cynllunio lleol eraill neu Fyrddau Cydgynllunio.

5. Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Pŵer/Pwerau: Rhan 4, Adrannau 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, Atodlen 3 ac Atodlen 4.

[Adran 62D, 62E, 62F, 62G, 62H, 62I, 62J, 62K, 62N, 62O, 62P, 62Q, 62R, 75A, ac Atodlen 4D o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990]

Disgrifiad:

5.1 Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- Mewn rheoliadau, diffinio beth yw Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC);
- Nodi darpariaethau ynghylch y ffordd yr ymdrinnir â DAC a'i ystyried mewn rheoliadau a gorchmynion;
- Rhagnodi ffurf a chynnwys cais am DAC;
- Mewn rheoliadau, nodi pa geisiadau cysylltiedig y gellir eu hystyried ar yr un pryd â chais am DAC;
- Rhagnodi'r amgylchiadau lle gellir cyflwyno Adroddiad ar Effaith Leol a nodi'r materion y gellir eu hystyried ynddo;
- Nodi'r swyddogaethau a gyflawnir gan unigolyn penodedig yn lle Gweinidogion Cymru;
- Darparu ar gyfer ffioedd ceisiadau DAC a chaniatadau cysylltiedig.

Bwriad Polisi:

5.2 Bwriedir cyflwyno proses gwneud cais newydd ar gyfer penderfynu ar geisiadau DAC yng Nghymru. Caiff y mathau o brosiectau a fyddai'n cael eu pennu drwy'r broses newydd eu diffinio mewn rheoliadau.

5.3 Bwriedir i weithdrefn cyn ymgeisio a arweinir gan ddatblygwyr fod yn rhan o'r broses a bod y cais yn cael ei weinyddu gan unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru, sef Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Bydd y ffordd y caiff y cais ei brosesu a phryd y cyflwynir dogfennau yn cael eu diffinio mewn offerynnau statudol, gyda rheolau gweithdrefnau ar gyfer ystyried y cais yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Bydd y penderfyniadau a wneir ar geisiadau DAC yn derfynol.

5.4 Disgwylir i'r broses ar gyfer gweinyddu ac ystyried cais am DAC fod yn debyg i'r gweithdrefnau presennol [1] ar gyfer sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau ac ymchwiliadau.

5.5 Yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, crynhoir y bwriad polisi presennol ynghylch y manylion i'w rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth isod:

Maes	**Disgrifiad**
Trothwyon a meini prawf ar gyfer ceisiadau DAC [*a.62D(3) a (6)*]	Bu'r trothwyon a'r meini prawf arfaethedig ar gyfer y mathau o geisiadau cynllunio i'w categoreiddio yn DAC yn destun ymgynghoriad fel rhan o'r Papur Cynllunio Cadarnhaol sy'n cyd-fynd â Bil Cynllunio (Cymru) [Drafft] a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r trothwyon a'r meini prawf arfaethedig ar gyfer DAC fel y rhai a gyflwynwyd yn Lloegr o dan system Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol Llywodraeth y DU. Mae hyn yn cynnwys trothwyon sy'n ymwneud â datblygu cyfleusterau storio nwy dan ddaear, cyfleusterau nwy naturiol hylifedig, cyfleusterau derbyn nwy, piblinellau nwy, meysydd awyr, rheilffyrdd, cyfnewidfeydd rheilffyrdd nwyddau, argaeau a chronfeydd dŵr, a chyfleusterau trosglwyddo adnoddau dŵr, trin dŵr gwastraff a gwastraff peryglus. Yn ogystal â'r datblygiadau uchod, disgwylir i orsafoedd cynhyrchu ar y tir sy'n cynhyrchu rhwng 25 a 50 megawat ddod o dan brosiect DAC hefyd. Bydd rhagor o waith a phroses ymgynghori bellach yn pennu'r trothwyon terfynol, felly efallai y bydd y rhestr derfynol ychydig yn wahanol i'r enghreifftiau a roddir uchod.
Rhoi gwybod am gais arfaethedig am DAC [*a.62E(2) a (6)*]	Rhoi gwybod am gais arfaethedig fydd y pwynt cyswllt cyntaf rhwng y datblygwr a Gweinidogion Cymru. Bydd yn rhoi digon o fanylion i Weinidogion Cymru benderfynu a yw'r cais yn DAC a bydd yn cynnwys gwybodaeth ofynnol.

[1] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 OS 2003 Rhif 390 (CY.52);
Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Y Weithdrefn Gwrandawiadau) (Cymru) 2003 OS Rhif 1271;
Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003 OS Rhif 1266;
Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfyniad gan Arolygwyr) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003, OS Rhif 1267.

	Bydd is-ddeddfwriaeth yn rhagnodi ffurf a chynnwys yr hysbysiad. Disgwylir i'r wybodaeth ofynnol gynnwys disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, amlinelliad o leoliad y safle, diagramau a disgrifiad o effaith amgylcheddol ddisgwyliedig y datblygiad. Ni fyddai'r wybodaeth ofynnol yn ddigonol at ddibenion ymgynghori. Ni ddisgwylir i amserlenni hysbysu gael eu rhagnodi oherwydd ni chaiff unrhyw gamau a gymerir o ran ymgynghoriad cyn ymgeisio eu trin fel y cyfryw at ddibenion cais DAC.
Caniatadau cysylltiedig - Gallu i ragnodi gweithdrefn [*a.62G(4)-(6)*]	Cynigir y byddai datblygwr yn gallu gwneud cais am nifer o ganiatadau eilaidd i Weinidogion Cymru ar yr un pryd â chais am DAC. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r weithdrefn sy'n gysylltiedig â'r caniatadau eilaidd hynny. Hynny yw, mae'n eu galluogi i ddatgymhwyso neu gymhwyso deddfiadau, gyda neu heb ddiwygiadau, yn ymwneud â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") a'r ddeddfwriaeth y mae'r caniatâd eilaidd ynddi. Disgwylir i ganiatadau eilaidd ddilyn yr un gweithdrefnau gweinyddol ac ymgynghori â'r prif gais DAC a geir yn Neddf 1990, fel bod modd i Weinidogion Cymru ei ystyried ar yr un pryd. Fodd bynnag, bydd rhinweddau'r penderfyniad ynghylch y caniatadau eilaidd yr un peth â'r hyn a nodir yn y ddeddfwriaeth wreiddiol sy'n ymwneud â'r caniatâd hwnnw.
Caniatadau eilaidd - Rhestr o ganiatadau [*a.62H(1)*]	Nodwyd sawl math o ganiatâd eilaidd, a all fod yn briodol i ategu cais am DAC. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r caniatadau hynny gael eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth, yn ddarostyngedig i'r amodau yn is-adran 62H(3). Mae'r rhai sy'n debygol o gael eu rhagnodi gan reoliadau i ddechrau fel a ganlyn: • Rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig, rhoi caniatâd henebion cofrestredig (Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979 (a.2)); • Gwaith ar dir comin (Deddf Tir Comin 2006 (a.38)); • Cyfnewid tir comin (Deddf Tir Comin 2006 (a.16 ac a.17));

	• Cyfyngu ar osod rheiliau, trawstiau ac ati dros briffordd (caniatâd) (Deddf Priffyrdd 1980 (a.178)); • Ceisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus; ceisiadau am ganiatâd heb fod amodau ynghlwm wrth ganiatâd blaenorol a chais i barhau â chaniatâd ar newid rheolaeth tir (Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (a.4, a.13 ac a.17)); • Rheoli gwaith dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth ac awdurdodi gwaith, caniatâd adeilad rhestredig Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (a.8 a 74); • Gofyniad am ganiatâd cynllunio a rhoi caniatâd cynllunio (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.57 ac a.58)); • GPC i gaffael tir i'w ddatblygu (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.226)); • Cau neu wyro priffordd (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.247)); • Priffyrdd yn croesi llwybr priffordd newydd arfaethedig neu'n mynd i mewn iddo, ac ati. (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.248)); • Diddymu hawliau tramwy dros dir a gedwir at ddibenion cynllunio (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.251)); • Caffael tir mewn perthynas â phriffyrdd (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.254)); • Gorchymyn - llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig y mae datblygiad yn effeithio arnynt (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.257)). Gall rheoliadau ychwanegol ychwanegu, diwygio neu ddileu caniatâd o'r rhestr hon.
Adroddiadau ar Effaith Leol - gofynion [*a.62I(1)*]	Unwaith y bydd Gweinidogion Cymru wedi cofrestru cais ffurfiol am DAC, rhaid i Weinidogion Cymru wahodd yr awdurdod cynllunio lleol y mae'r datblygiad wedi'i leoli yn ei ardal i gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol ("AEL"). Mae'r adran hon yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, amlinellu'r camau sy'n ofynnol er mwyn llunio AEL. Y camau hynny yw hysbysu'r datblygwr ynghylch y gofyniad am AEL o dan a.62I ac erbyn pryd y mae'n rhaid ei gyflwyno. Disgwylir mai o fewn pedair wythnos i'r hysbysiad a nodir y bydd hyn.

Adroddiadau Gwirfoddol ar Effaith Leol [*a.62J(4)*]	Nid oes angen i awdurdodau cynllunio lleol eraill gyflwyno AEL. Fodd bynnag, os bydd awdurdodau eraill o'r farn y bydd y cynnig yn effeithio ar eu hardal, cânt gyflwyno AEL gwirfoddol. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i orchymyn datblygu ddarparu ar gyfer cyflwyno AELau gwirfoddol gan awdurdodau cyfagos. Bydd y gorchymyn yn rhagnodi y bydd ffurf a chynnwys AEL gwirfoddol yr un peth ag AEL gofynnol. Yn yr un modd, disgwylir y bydd angen AEL gwirfoddol o fewn yr un terfyn amser, sef pedair wythnos.
Adroddiadau ar Effaith Leol - Ffurf a chynnwys [*a.62K(1)*]	Mae'r adran hon yn galluogi rhagnodi ffurf a chynnwys AEL. Bydd yr AEL yn ddogfen sy'n rhoi manylion am effaith gadarnhaol/negyddol/niwtral debygol y datblygiad arfaethedig ar ardal yr awdurdod. Disgwylir i awdurdodau cynllunio lleol orfod glynu wrth faterion rhagnodedig penodol y mae'n rhaid iddynt ddisgrifio effeithiau posibl yn eu cylch. Hefyd, bydd angen iddynt lunio rhestr o amodau drafft a gofynion posibl o dan Adran 106, os bydd Gweinidogion Cymru neu unigolion penodedig yn dewis caniatáu'r cynnig a lliniaru effeithiau negyddol sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig. Bwriedir i'r AEL fod yn asesiad ffeithiol o effeithiau. Gall yr awdurdod cynllunio lleol gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru neu unigolion penodedig ar wahân i broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, os yw'n dewis gwneud hynny. Ni chaiff yr elfen hon ei rhagnodi drwy orchymyn. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw ofyniad i'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â'r cyhoedd wrth lunio'r Adroddiad ar Effaith Leol.
Penderfynu ar weithdrefn [*a.62P(3) a (7)*]	Mae adran 62P yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddewis sut y caiff cais DAC ei ystyried. Gall hyn fod naill ai drwy sylwadau ysgrifenedig, ymchwiliad, gwrandawiad, neu gyfuniad o'r tri dull. Rhagwelir mai saith diwrnod gwaith fydd y cyfnod rhagnodedig y penderfynir ar y weithdrefn ac yr hysbysir unigolion perthnasol ynddo. Mae hyn yn ceisio bod yn gydradd

	ag apeliadau. Bydd Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i hysbysu unigolion cynrychioliadol fel y gwelant yn briodol, yr ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol am y dull apelio. Rhagwelir y bydd ymgyngoreion statudol yn cael eu rhagnodi fel pobl gynrychioliadol mewn rheoliadau. Dewisir y weithdrefn yn seiliedig ar feini prawf cyhoeddedig. Mae cyfres o feini prawf drafft er mwyn penderfynu ar weithdrefn apeliadau a cheisiadau a gaiff eu galw i mewn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Disgwylir defnyddio meini prawf tebyg.
Darparu ar gyfer ymdrin â chais i Weinidogion Cymru [*a.62Q(1)-(2 ac adran 75A a fewnosodwyd gan baragraff 7 o At.4*]	Mae'r adrannau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, mewn is-ddeddfwriaeth, y broses a'r gofynion ar gyfer gwneud a phenderfynu ar geisiadau a wnaed yn uniongyrchol iddynt, gan gynnwys 'ceisiadau cysylltiedig'. Ar gyfer DAC, mae'r broses ôl-gyflwyno yn debygol o ddilyn prosesau a gofynion presennol ar gyfer apeliadau a cheisiadau a gaiff eu galw i mewn yn agos. Nid yw'n debygol y bydd y broses gyfan, o'r cam cyflwyno i'r penderfyniad, yn cymryd mwy na 36 wythnos. Mae hyn er mwyn i'r ymgeisydd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol ac ymgyngoreion, fod mor gyfarwydd â phosibl. Er mwyn cyflawni proses mor debyg â phosibl, mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn bosibl i roi darpariaethau mewn deddfwriaeth gynllunio bresennol ar waith, gyda neu heb addasiadau i geisiadau a wnaed yn uniongyrchol iddynt, gan gynnwys unrhyw geisiadau cysylltiedig. Maent hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau lle mae angen i'r broses a'r gofynion wyro oddi wrth brosesau presennol. Mae hyn oherwydd bod angen i drefniadau adlewyrchu'r ffaith y bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu ac yn penderfynu ar geisiadau yn lle'r ACLl, ac nad yw cwmpas pwerau presennol mewn rhai achosion yn bodoli nac yn ymestyn i ragnodi agweddau penodol ar y broses gwneud cais hon. Er

	enghraifft: • Pennu'r trefniadau ymgynghori gyda'r awdurdod cynllunio lleol y lleolir y DAC yn ei ardal; • Pennu'r trefniadau hysbysu gyda'r awdurdod cynllunio lleol y lleolir y DAC yn ei ardal ac iddo gofnodi manylion y cais ar y gofrestr gynllunio a gedwir ganddo; • Gwneud darpariaethau i gyfyngu ar allu ymgeiswyr i wneud newidiadau sylweddol i'r datblygiad ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno er mwyn sicrhau y gellir penderfynu ar y cais, ac i un diwygiad ar y mwyaf gael ei wneud i'r cynllun, o fewn y cyfnod penderfynu rhagnodedig.
Swyddogaethau a gyflawnir gan unigolion penodedig [*At.3(paragraff 1)*]	Bydd yr Atodlen yn nodi'r amgylchiadau lle y caiff swyddogaethau eu cyflawni gan yr unigolion penodedig mewn perthynas â cheisiadau am DAC a wnaed i Weinidogion Cymru. Mae'n caniatáu i swyddogaethau penodol a gyflawnir gan yr unigolyn penodedig (Arolygiaeth Gynllunio Cymru) gael eu rhagnodi mewn rheoliadau. Disgwylir i'r Arolygiaeth Gynllunio gyflawni'r holl swyddogaethau (fel derbyn hysbysiadau, ceisiadau ac ymatebion yn ogystal â'u hystyried) mewn perthynas â cheisiadau DAC, ac eithrio penderfynu ar y cais yn derfynol.
Ffioedd [*At.4(paragraff 18)*]	Caiff y ffioedd gwneud cais eu nodi mewn rheoliadau. Rhagwelir y caiff ffioedd ceisiadau DAC eu talu mewn rhandaliadau ac fe'u cyfrifir ar sail yr amser y bydd Arolygydd yn ei dreulio ar y cais. Hefyd, defnyddir ffioedd cais cynllunio i dalu am brosesu'r cais, a thalu am Arolygwyr Annibynnol a lleoliadau a logisteg os bydd angen cynnal gwrandawiad. Bydd y ffioedd hefyd yn talu am gyflawni swyddogaethau'n ymwneud â chaniatadau cysylltiedig gan Weinidogion Cymru. Caiff rhan o'r ffi ei thalu i'r awdurdod cynllunio lleol am lunio AEL. Bwriedir i'r darpariaethau ynghylch ffioedd adlewyrchu'r hyn sydd ar waith ar gyfer penderfynu ar Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008.

	Codir tâl ar wahân am ganiatadau dilynol, fel amrywio amodau a diwygiadau amherthnasol/mân ddiwygiadau perthnasol, pan y'u cyflwynir gan awdurdodau cynllunio lleol, yn unol â'r rhestr ffioedd genedlaethol.

5.6 Caiff y bwriad polisi uchod ei ategu gan ganllawiau.

Cydberthynas â phwerau eraill:

5.7 Rhoddir y pwerau a ddisgrifir uchod ar gyfer proses DAC i Weinidogion Cymru yn sgil diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Ar y cyfan, cyflawnir y pwerau hyn drwy is-ddeddfwriaeth annibynnol sy'n ymwneud â DAC yn unig. Bydd cysylltiad agos rhwng y darpariaethau a wneir mewn rheoliadau a gorchmynion ar gyfer DAC a'r rhai ar gyfer ceisiadau uniongyrchol dewisol a bydd gweithdrefnau ar gyfer ystyried ceisiadau DAC yn seiliedig ar y rheolau gweithdrefnau ar gyfer apeliadau a chyfeiriadau at Weinidogion Cymru.

5.8 Bwriedir i'r ddau fath o gais gael eu hystyried mewn ffordd debyg (gweler adran 7 isod).

Pwerau presennol

5.9 Caiff materion gweithdrefnol sy'n ymwneud â gweithdrefnau cyn ymgeisio, ymdrin â chais DAC a darpariaethau'n ymwneud â ffurf a chynnwys Adroddiadau ar Effaith Leol eu galluogi drwy orchymyn gweithdrefn newydd. Bydd hyn yn seiliedig ar Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, OS Rhif. 801.

5.10 Nodir ffioedd ar gyfer ceisiadau DAC mewn rheoliadau newydd ac ar wahân. Byddant yn debyg i Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ffioedd) 2010 OS Rhif 106

5.11 Bydd y rheolau gweithdrefnau ar gyfer ystyried ceisiadau DAC yn seiliedig ar y rheolau presennol ar gyfer apeliadau cynllunio a cheisiadau a gaiff eu galw i mewn, yn amodol ar addasiadau, sef:

- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 (OS 2003 Rhif. 390 (CY.52);

- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Y Weithdrefn Gwrandawiadau) (Cymru) 2003 OS Rhif 1271;
- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003 OS Rhif 1266;
- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfyniad gan Arolygwyr) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003, OS Rhif 1267.

5.12 Caiff yr holl offerynnau statudol uchod eu hadolygu yn seiliedig ar y gwaith mireinio i'r systemau rheoli datblygiad ac apeliadau. Mae'n debygol y byddai unrhyw ddiwygiadau arfaethedig hefyd yn gymwys i geisiadau DAC.

Pwerau arfaethedig

5.13 Mae Adran 15 o'r Bil yn cyflwyno gofyniad ar ymgeiswyr i gynnal ein hymgynghoriad cyn ymgeisio â'r gymuned ac ymgyngoreion technegol lle y bwriadant wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer math o ddatblygiad a nodwyd mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru. Ceir manylion am y ddarpariaeth hon a sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei chymhwyso yn y papur ymgynghori 'Frontloading the Development Management System' a gyhoeddwyd ym mis Hydref. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr DAC fodloni'r gofyniad hwn.

5.14 Mae Adran 16 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am wasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir gan awdurdodau cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru. Gall y rheoliadau nodi pryd y bydd angen darparu gwasanaethau cyn ymgeisio; natur y gwasanaethau i'w darparu; a'r gofynion ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth a dogfennau yn ymwneud â darparu'r gwasanaethau. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru gadw cofnodion o wasanaethau cyn ymgeisio, a chyhoeddi gwybodaeth am y math o wasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir. Bydd cyflwyno gwasanaeth cyn ymgeisio i'w ddarparu gan Weinidogion Cymru ar gyfer ymgeiswyr DAC yn rhan o ymgynghoriad 'Frontloading the development management system'.

6. Ceisiadau i Weinidogion Cymru: Opsiwn i wneud cais i Weinidog Cymru

Pŵer: Rhan 4, Adrannau 20, 21, 22, 23, 24, 25 ac Atodlenni 3, 4

[Adrannau 62L, 62M, 62N, 62O, 62P 62Q, 62R, 75A ac Atodlen 4D i'w mewnosod yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990]

Disgrifiad:

6.1 Mae Adran 20 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- Dynodi awdurdod cynllunio lleol (ACLl) ar sail ei danberfformiad a dirymu'r dynodiad ar unrhyw adeg.
- Cyhoeddi'r meini prawf i'w rhoi ar waith wrth ddynodi ACLl a dirymu'r dynodiad.
- Rhoi'r opsiwn i ddatblygwyr gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio, neu gais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl (ceisiadau 'cymwys'), yn uniongyrchol i Weinidog Cymru benderfynu arno, lle dynodwyd yr ACLl.
- Rhoi'r opsiwn i ddatblygwyr gyflwyno cais 'cysylltiedig' yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru benderfynu arno, ond dim ond os yw'n gysylltiedig â'r cais 'cymwys' a lle dynodwyd yr ACLl.
- Mewn rheoliadau, rhagnodi'r mathau o ddatblygiad y mae'r opsiwn i wneud cais uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn gymwys, a'r mathau o geisiadau 'cysylltiedig' y gellir eu gwneud yn uniongyrchol iddynt hefyd.
- Mewn gorchymyn datblygu, darparu ar gyfer cyfeirio cais 'cysylltiedig' i'r awdurdod a fyddai wedi penderfynu arno fel arfer, lle mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'n gysylltiedig â'r prif gais, neu na ddylent benderfynu arno.

6.2 Mae'r adrannau a'r atodlenni sy'n weddill yn egluro'r canlynol:

- Bydd penderfyniad Gweinidogion Cymru ar gais a wneir iddynt yn uniongyrchol yn derfynol.
- Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu cyngor cymuned lle mae'r cais yn ymwneud â thir yn ardal y cyngor cymuned a lle mae wedi gofyn i'w awdurdod cynllunio lleol yn flaenorol i gael ei hysbysu am geisiadau a gyflwynir i'r awdurdod hwnnw.
- Oni fydd Gweinidogion Cymru yn nodi fel arall, unigolyn penodedig a wnaiff benderfynu ar y ceisiadau, (o Arolygiaeth Gynllunio Cymru fwy na thebyg). Nodir swyddogaethau'r unigolyn penodedig yn Atodlen 3 i'r Bil.

6.3 Mae'r adrannau a'r atodlenni sy'n weddill hefyd yn rhoi pwerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu'r broses a'r gofynion ar gyfer gwneud a phenderfynu ar geisiadau uniongyrchol, gan gynnwys 'ceisiadau cysylltiedig'. Maent yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- Penderfynu ar y gweithdrefnau a ddilynir i ystyried y cais a chyhoeddi'r meini prawf i'w rhoi ar waith wrth wneud y penderfyniad hwn. Rhagnodir y cyfnod y gwneir y penderfyniad hwn ynddo mewn rheoliadau.
- Mewn gorchymyn datblygu, darparu ar gyfer y ffordd yr ymdrinnir â cheisiadau o'r fath, gan gynnwys yr ymgynghoriad a gynhelir gan Weinidogion Cymru ar geisiadau uniongyrchol a'r gallu i'w diwygio ar ôl iddynt gael eu cyflwyno.
- Gyda neu heb ddiwygiadau (drwy orchymyn datblygu), rhoi unrhyw ddarpariaethau neu ofynion a osodwyd gan ddeddfwriaeth gynllunio bresennol ar waith mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.
- Cyfarwyddo ACLl neu awdurdod sylweddau peryglus i gyflawni camau neu swyddogaethau penodol mewn perthynas â chais a wneir yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru a fyddai, fel arall, wedi'u cyflawni gan yr awdurdod hwnnw.

Bwriad Polisi:

6.4 Gyda'i gilydd, mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau uniongyrchol pan fydd methiannau amlwg a chyson ym mherfformiad ACLl. Lle yr ystyrir bod ACLl yn perfformio'n wael a'i fod wedi'i ddynodi gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw, bydd ymgeiswyr yna'n cael yr opsiwn i gyflwyno cais cynllunio am ddatblygiad mawr yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru benderfynu arno, yn hytrach na'r ACLl. Caiff y dynodiad ei ddirymu pan fydd Gweinidogion Cymru yn fodlon bod yr ACLl sy'n perfformio'n wael wedi cymryd camau sylweddol i wella ei berfformiad.

6.5 Bydd y ddarpariaeth yn sicrhau bod ACLlau yn canolbwyntio ar wella eu perfformiad, gan eu hannog i weithio'n effeithlon wrth gyflawni eu swyddogaethau rheoli datblygu a swyddogaethau cynllunio eraill. Bydd hefyd yn rhoi gwasanaeth amgen i ddatblygwyr fel y gall eu ceisiadau gael eu prosesu a'u pennu mewn ffordd gywir ac amserol. Gall hyn helpu i ailennyn hyder yn y system gynllunio, a all, yn ei dro, arwain at fwy o fuddsoddi a thwf economaidd yn yr ardal ACLl ddynodedig.

6.6 Lle dynodwyd ACLl, bydd Gwasanaeth Cynghori a Gwella Cynllunio Llywodraeth Cymru yn helpu'r awdurdod i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arno er mwyn ymdrin â materion perfformiad mor gyflym â phosibl.

6.7 Darperir rhai agweddau ar y ddarpariaeth hon mewn is-ddeddfwriaeth (drwy reoliadau a gorchymyn datblygu), a fydd, yn ei hanfod, yn rhagnodi'r broses a'r gofynion ar gyfer gwneud a phenderfynu ar geisiadau o'r fath. Disgwylir iddynt adlewyrchu, hyd y gellir, y broses a'r gofynion sy'n gymwys fel arfer pan gyflwynir cais i'r ACLl, a nodir yn bennaf yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012"). Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn cyhoeddi'r meini prawf sy'n gysylltiedig â dynodi neu ddad-ddynodi ACLl, a'r meini prawf i'w rhoi ar waith wrth bennu'r gweithdrefnau a ddilynir i benderfynu ar y cais (h.y. drwy ymchwiliad lleol, gwrandawiad neu sylwadau ysgrifenedig, neu gyfuniad o'r tri).

6.8 Yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, crynhoir y bwriad polisi presennol ynghylch y manylion i'w rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth a'r meini prawf dynodi isod:

Manylyn	**Bwriad Polisi**
Mathau o ddatblygiadau [*a.62I(3)]*	Disgwylir i'r math o ddatblygiad y bydd yr opsiwn i wneud ceisiadau uniongyrchol yn gymwys iddo yn gyfyngedig i ddatblygiad mawr, gan fod y mathau hyn o gynigion yn hybu twf economaidd ac yn cael yr effaith fwyaf ar gymunedau. Mae'r diffiniad o ddatblygiad mawr yn debygol o fod yn debyg i'r hyn a geir yn erthygl 2(1) o Orchymyn 2012, a oedd yn rhan o'r hierarchaeth ddatblygu yr ymgynghorwyd arni yn y papur ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013 ac sy'n cynnwys: - anhedd-dai o 10 uned neu fwy neu arwynebedd safle o 0.5 ha neu fwy; - adeiladau ag arwynebedd llawr arfaethedig o 1,000 metr sgwâr neu fwy;

	- datblygiad ar safle o 1 hectar neu fwy.
Ceisiadau cymwys [*a.62L(5)*]	Mae'r Bil yn nodi bod 'cais cymwys' yn cynnwys ceisiadau llawn, amlinellol a materion a gadwyd yn ôl. Nid yw'n cynnwys y gallu i geisiadau sy'n dod o dan Adran 73 o Ddeddf 1990 (ceisiadau i amrywio neu ddileu amodau) gael eu trin fel 'cais cymwys', oni nodir fel arall mewn rheoliadau. Mae ceisiadau i adnewyddu caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mawr yn ymdrin ag egwyddor datblygu. Felly cynigir, drwy reoliadau, y dylai ceisiadau adnewyddu gael eu hystyried yn geisiadau 'cymwys'. Bydd mathau eraill o geisiadau sy'n dod o dan Adran 73 o Ddeddf 1990, fel amrywio neu ddileu amodau eraill a gwneud diwygiadau perthnasol i ganiatadau cynllunio, yn parhau i gael eu cyflwyno i'r ACLl am benderfyniad.
Meini prawf i'w rhoi ar waith wrth benderfynu dynodi ACLl neu ddirymu'r dynodiad. [*a.62L(8)*]	Mae'r meini prawf a roddir ar waith wrth asesu a phenderfynu a yw ACLl yn tanberfformio, ac felly a ddylai gael ei ddynodi gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw, yn debygol o ddeillio o'r dangosyddion a nodir yn y fframwaith perfformiad arfaethedig sy'n pennu beth sy'n gyfystyr ag ACLl da, a nodwyd yn y papur ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol. Maent yn debygol o ganolbwyntio ar berfformiad yr ACLl o ran effeithlonrwydd ac ansawdd penderfynu ar geisiadau cynllunio, a allai gael eu hasesu yn unol ag amserlen penderfynu ar ddatblygiadau mawr, a'r graddau y caiff penderfyniadau o'r fath eu gwrthdroi mewn apêl. Gallai'r meini prawf i'w rhoi ar waith wrth asesu a phenderfynu a ddylid dirymu'r dynodiad gynnwys ystyried y canlynol: - gallu'r ACLl dynodedig i ymdrin yn effeithiol â cheisiadau am ddatblygiadau mawr yn y dyfodol;

	- effeithiolrwydd yr ACLl dynodedig wrth ymdrin â'r ceisiadau mawr hynny a gyflwynwyd iddynt yn ystod y dynodiad; - graddau'r gwelliant yn erbyn meysydd gwan a nodwyd yn yr asesiad cychwynnol o berfformiad; - perfformiad yr ACLl dynodedig yn gweinyddu ceisiadau a gyflwynir yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt, e.e. ei berfformiad fel ymgynghorai ar geisiadau o'r fath, ac wrth gyflawni unrhyw gamau sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru er mwyn eu helpu i brosesu ac ystyried ceisiadau o'r fath.
Ceisiadau 'cysylltiedig' [*a.62M(3)*]	Cynigir y bydd datblygwr yn gallu cyflwyno cais 'cysylltiedig' yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru ar yr un pryd â'r cais cymwys. Er enghraifft, gallai ceisiadau 'cysylltiedig' fod ar gyfer cymeradwyo seilwaith pan fo ei angen i gefnogi cais a wnaed yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru am dai newydd. Mae'r mathau o geisiadau cysylltiedig yn debygol o gynnwys ceisiadau llawn, amlinellol, materion a gadwyd yn ôl ac adnewyddu, yn ogystal â cheisiadau am ganiatadau adeilad rhestredig, ardal gadwraeth a sylweddau peryglus. Ystyrir bod y mathau hyn o geisiadau yn cynrychioli'r mathau mwyaf cyffredin o geisiadau a chaniatadau sydd yn aml yn mynd law yn llaw â cheisiadau cynllunio am ddatblygiad mawr. Mae hefyd yn galluogi'r datblygwyr i gael ceisiadau 'cysylltiedig' wedi'u penderfynu gan un awdurdod.
Ceisiadau 'cysylltiedig' - Cyfeiriad at yr awdurdod cynllunio lleol neu'r awdurdod sylweddau peryglus. [*a.62M(7)*]	Os na fydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cais yn gysylltiedig â'r prif gais, neu na ddylent benderfynu arno, ceir darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfeirio'r cais cysylltiedig at yr awdurdod a fyddai wedi penderfynu arno fel arfer. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru, mewn gorchymyn datblygu, i amlinellu'r broses gyfeirio, gan gynnwys rhagnodi'r hyn sy'n gyfystyr â chyfeirio cais er mwyn rhoi sbardun ffurfiol i'r awdurdod brosesu a phenderfynu ar y cais. Mae hefyd yn

	debygol o nodi'r ffordd y gwneir y cyfeiriad ffurfiol i'r awdurdod a pha wybodaeth i'w chynnwys. Gall hefyd gynnwys y broses ar gyfer hysbysu'r ymgeisydd bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyfeirio'r cais i'r awdurdod penderfynu arferol.
Penderfynu ar weithdrefn [*a.62P(3) a (7)*]	Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddewis y dull y caiff cais a wneir yn uniongyrchol iddynt hwy o dan y mesur hwn ei ystyried. Gall hyn fod naill ai drwy sylwadau ysgrifenedig, ymchwliad, gwrandawiad, neu gyfuniad o'r tri dull. Rhagwelir y caiff y cyfnod y penderfynir ar y weithdrefn ynddo ei ragnodi o fewn 7 diwrnod gwaith i dderbyn cais dilys. Mae hyn yn ceisio bod yn gydradd â'r hyn a wneir ar gyfer apeliadau. Mae Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i hysbysu'r ymgeisydd, ACLl a phobl gynrychioliadol am y dull penderfynu fel y gwelant yn briodol. Rhagwelir y caiff ymgyngoreion statudol eu rhagnodi fel pobl gynrychioliadol mewn rheoliadau. Dewisir y weithdrefn yn seiliedig ar feini prawf cyhoeddedig. Mae cyfres o feini prawf cyhoeddedig er mwyn penderfynu ar weithdrefn apeliadau a cheisiadau a gaiff eu galw i mewn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Rhagwelir y byddai meini prawf tebyg yn cael eu defnyddio ar gyfer ceisiadau uniongyrchol.
Y broses a'r gofynion ar gyfer gwneud a phenderfynu ar geisiadau uniongyrchol dewisol i Weinidogion Cymru. [*a.62Q(1) ac a.75A(1)*]	Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn gorchymyn datblygu y broses a'r gofynion ar gyfer gwneud a phenderfynu ar geisiadau a wnaed yn uniongyrchol iddynt hwy, gan gynnwys unrhyw geisiadau 'cysylltiedig'. Mae'n debygol y byddant yn adlewyrchu, hyd y gellir, y broses a'r gofynion sy'n gymwys fel arfer pan gyflwynir cais i ACLl. Bydd hyn er mwyn sicrhau cysondeb i'r ymgeisydd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y gymuned leol ac ymgyngoreion statudol. Ymhlith yr agweddau sy'n debygol o adlewyrchu'n agos y broses bresennol o wneud cais cynllunio a'r gofynion, fel y'u nodir mewn deddfwriaeth (yn arbennig yng Ngorchymyn 2012), mae: - Y gofynion sy'n gysylltiedig â gwneud cais dilys, megis y ffurf a'r modd y caiff ei

	wneud, y wybodaeth a'r ffi i gyd-fynd â'r cais a'r tystysgrifau a'r gofynion hysbysu i'w cwblhau gan yr ymgeisydd. - Y gofynion cyhoeddusrwydd ac ymgynghori. - Y gofyniad bod yn rhaid penderfynu ar geisiadau yn unol â'r cynllun datblygu lleol oni noda ystyriaethau perthnasol fel arall. - Y cyfnod amser ar gyfer penderfynu. Mae'r Bil yn galluogi deddfiadau neu ofynion mewn deddfwriaeth gynllunio bresennol i gael eu cymhwyso, gyda neu heb addasiadau i geisiadau a wnaed yn uniongyrchol iddynt hwy, gan gynnwys unrhyw geisiadau cysylltiedig, er mwyn cyflawni hyn. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer achosion lle mae angen i'r broses a'r gofynion wyro oddi wrth y broses gwneud cais bresennol. Mae hyn er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu ac yn penderfynu ar geisiadau yn lle'r ACLl, ac nad yw cwmpas pwerau presennol mewn rhai achosion yn bodoli nac yn ymestyn i ragnodi agweddau penodol ar y broses gwneud cais hon. Er enghraifft, yr angen i: - Sefydlu trefniadau ymgynghori â'r ACLl dynodedig lle y cyflwynwyd cais i Weinidogion Cymru er mwyn penderfynu arno. - Cadarnhau'r trefniadau hysbysu gyda'r ACLl dynodedig lle y cyflwynwyd cais i Weinidogion Cymru. - Darparu ar gyfer cyfyngu ar allu ymgeiswyr i wneud newidiadau sylweddol i'r datblygiad ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, fel y penderfynir arno o fewn y cyfnod rhagnodedig. Er mwyn i geisiadau am sylweddau peryglus, caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth gael eu dosbarthu fel ceisiadau cysylltiedig, mae'r prosesau a'r gofynion ar gyfer penderfynu arnynt gan Weinidogion Cymru hefyd yn debygol o adlewyrchu, hyd y gellir, y prosesau a'r gofynion presennol sy'n gysylltiedig â'r caniatadau hyn. Nodir y rhain yn Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992 a Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 2012.

Ffioedd [*At.4(18)*]	Mae'r Bill yn galluogi Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, i ddarparu ar gyfer codi a phennu ffioedd am geisiadau a gyflwynir yn uniongyrchol iddynt. Cyflwynir rheoliadau er mwyn pennu'r ffioedd gwneud cais i'w talu gan geiswyr i un o Weinidogion Cymru er mwyn prosesu a phenderfynu ar eu ceisiadau. Mae'r rhain yn debygol o adlewyrchu'r ffioedd presennol ar gyfer ceisiadau a dderbynnir gan ACLlau, a nodir ar hyn o bryd yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989 a Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992.

6.9 Caiff y bwriad polisi uchod ei ategu gan ganllawiau.

Cydberthynas â phwerau eraill:

Pwerau presennol

6.10 Caiff y pwerau a ddisgrifir uchod ar gyfer ceisiadau uniongyrchol dewisol a cheisiadau cysylltiedig eu harfer drwy gyfuniad o ddeddfwriaeth newydd a deddfwriaeth bresennol.

6.11 Rhagwelir y caiff y materion gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â thrin ceisiadau a wneir o dan Ran 4 o'r Bil eu nodi mewn rheoliadau newydd a gorchymyn datblygu.

6.12 Darperir ar gyfer ffioedd ar gyfer ceisiadau uniongyrchol dewisol i Weinidogion Cymru drwy ddiwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989, Rhif OS 193.

6.13 Bydd y rheolau gweithdrefnol ar gyfer ystyried ceisiadau uniongyrchol dewisol yn seiliedig ar y rheolau presennol ar gyfer apeliadau cynllunio a cheisiadau a gaiff eu galw i mewn, yn amodol ar addasiadau, sef:

- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 (OS 2003 Rhif. 390[CY.52);

- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Y Weithdrefn Gwrandawiadau) (Cymru) 2003 (OS 2003 Rhif 1271;
- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003 [OS 2003 Rhif 1266. 1266;
- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfyniad gan Arolygwyr) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003. 1267.

6.14 Mae'r offerynnau statudol uchod yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd yn dilyn canlyniad y gwaith mireinio i'r systemau rheoli datblygiad ac apeliadau.

6.15 Bydd y dosbarthiad o geisiadau ar gyfer sylweddau peryglus, caniatadau ar gyfer adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth fel ceisiadau cysylltiedig yn galw am addasiadau i'r ddeddfwriaeth ganlynol er mwyn sefydlu'r broses ar gyfer penderfynu arnynt gan Weinidogion Cymru:

- Y Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus), 1992, Rhif OS 656;
- Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012, Rhif OS 793.

Pwerau arfaethedig - Ymgynghoriad cyn ymgeisio

6.16 Mae Adran 15 o'r Bil yn cyflwyno gofyniad ar ymgeiswyr i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio â'r gymuned ac ymgyngoreion technegol lle y bwriadant wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer math o ddatblygiad a nodwyd mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru. Ceir manylion am y ddarpariaeth hon a sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei chymhwyso yn y papur ymgynghori 'Frontloading the Development Management System' a gyhoeddwyd ym mis Hydref.

6.17 Mae'r papur ymgynghori yn nodi y bydd y gofyniad ond yn gymwys i gynigion datblygu mawr a fydd yn arwain at geisiadau cynllunio ar gyfer caniatâd llawn neu amlinellol. Felly, bydd ymgeiswyr sy'n cyflwyno ceisiadau am ddatblygiadau mawr yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru er mwyn penderfynu arnynt, lle y dynodwyd yr ACLI am ei fod wedi tangyflawni, yn gorfod cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Pwerau arfaethedig – Gwasanaeth Cyn ymgeisio

6.18 Mae Adran 16 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am wasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir gan awdurdodau cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru. Gall y rheoliadau nodi pryd y bydd angen darparu gwasanaethau cyn ymgeisio; natur y gwasanaethau i'w darparu; a'r gofynion ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth a dogfennau yn ymwneud â

darparu'r gwasanaethau. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru gadw cofnodion o wasanaethau cyn ymgeisio, a chyhoeddi gwybodaeth am y math o wasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir.

6.19 Ceir manylion am gyflwyno gofyniad statudol i ACLlau ddarparu gwasanaeth cyn ymgeisio i ymgeiswyr hefyd yn y papur ymgynghori 'Frontloading the Development Management System' a gyhoeddwyd ym mis Hydref. Bydd cyflwyno gwasanaeth cyn ymgeisio i'w ddarparu gan Weinidogion Cymru ar gyfer ymgeiswyr uniongyrchol dewisol yn rhan o ymarfer ymgynghori ar wahân ar gyflwyno'r darpariaethau hyn yn ehangach.

7. Hysbysiadau o Benderfyniadau a Hysbysu am Ddatblygu: Hysbysiadau o Benderfyniadau

Pŵer: Rhan 5, Adran 31

Disgrifiad:

7.1 Mae'r pŵer hwn yn darparu ar gyfer y canlynol:

- Mae'n rhaid i'r hysbysiadau o benderfyniadau nodi'r cynlluniau a'r dogfennau y mae'n rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â hwy.
- Lle y nodir cynlluniau neu ddogfennau mewn hysbysiad o benderfyniad, tybir y caiff y caniatâd ei roi yn ddarostyngedig i amod sy'n nodi bod yn rhaid i'r datblygiad gael ei gyflawni yn unol â hwy.
- Rhaid i'r ACLl ddarparu hysbysiad o benderfyniad diwygiedig lle y caiff amod neu gyfyngiad a oedd yn destun y caniatâd cynllunio a roddwyd ei gymeradwyo, ei ddileu neu ei newid.

7.2 Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi drwy orchymyn datblygu:

- Ffurf yr hysbysiadau o benderfyniadau.
- Y modd y rhoddir yr hysbysiadau o benderfyniadau.
- Y manylion i'w cynnwys mewn hysbysiadau o benderfyniadau.
- Yr unigolion y rhoddir hysbysiad o benderfyniad iddynt ar ôl iddo gael ei ddiwygio.
- Y manylion a gynhwysir mewn hysbysiad o benderfyniad diwygiedig.

Bwriad Polisi

7.3 Y bwriad polisi yw rhoi'r gallu i randdeiliaid nodi'n glir pa gynlluniau a dogfennau sy'n rhan o ganiatâd cynllunio.

7.4 Bydd y gofyniad i gyhoeddi hysbysiadau diwygiedig o benderfyniadau yn ei gwneud yn haws i randdeiliaid nodi, ar unrhyw gam yn y broses ddatblygu, y caniatâd cynllunio wedi'i ddiweddaru sy'n ystyried, er enghraifft, ddiwygiadau i gynlluniau cymeradwy a chyflawni, dirymu a diwygio amodau. Bydd hyn yn cynyddu tryloywder yn y system gynllunio ac yn helpu rhanddeiliaid i benderfynu a gafodd datblygiad ei adeiladu gan gydymffurfio â'r caniatâd cynllunio.

7.5 Yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, crynhoir y bwriad polisi presennol ynghylch y manylion i'w rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth isod:

Manylyn	**Bwriad Polisi**
Ffurf yr hysbysiadau o benderfyniadau	Mae A. 31 yn darparu'r pŵer i ragnodi ffurf safonol ar gyfer hysbysiadau o benderfyniadau mewn gorchymyn datblygu. Ceisir barn rhanddeiliaid, drwy ymgynghori, ar gwmpas a strwythur unrhyw ffurf safonol.
Y modd y rhoddir yr hysbysiadau o benderfyniadau	Byddai hysbysiadau o benderfyniadau yn cael eu hanfon yn ysgrifenedig gan yr ACLl. Bydd hyn drwy gyfrwng llythyr a/neu e-bost.
Beth fydd hysbysiad o benderfyniad yn ei gynnwys?	Bydd angen i'r hysbysiad o benderfyniad restru'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy yn ogystal â'r holl wybodaeth bresennol sy'n ofynnol yn ôl erthygl 24 o Orchymyn 2012, megis y rheswm am gynnwys unrhyw amodau cynllunio. Ni ragwelir y bydd angen cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol mewn hysbysiad o benderfyniad ond ystyrir hyn drwy ymgynghori â rhanddeiliaid.
Pwy fydd yn cael hysbysiad o benderfyniad diwygiedig?	Rhoddir hysbysiad o benderfyniad diwygiedig i'r ymgeisydd. Fodd bynnag, os bydd yr hysbysiad wedi cael ei ddiwygio efallai y byddai o fudd i bartïon eraill â diddordeb megis tirfeddianwyr/meddianwyr cyfagos neu ymgyngoreion statudol gael copi o'r hysbysiad diwygiedig. Byddwn yn ceisio barn rhanddeiliaid, drwy ymgynghori, ar y mater hwn.
Beth fydd yr hysbysiad o benderfyniad diwygiedig yn ei gynnwys?	Rhagwelir y bydd yr hysbysiad o benderfyniad diwygiedig yn fersiwn anodedig o'r hysbysiad gwreiddiol o benderfyniad, gan adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r caniatâd cynllunio. Bydd angen iddo nodi dyddiad unrhyw newidiadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhagwelir mai cyflawni amodau cynllunio fydd yn arwain at yr angen i gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad diwygiedig. Mewn achosion o'r fath byddai'r hysbysiad o benderfyniad diwygiedig ond yn nodi bod yr amod wedi cael ei gyflawni ar ddyddiad penodol.

7.6 Caiff y gorchymyn datblygu ei ategu hefyd gan ganllawiau.

Cydberthynas â phwerau eraill:

Pwerau presennol

7.7 Bydd y darpariaethau hyn yn gymwys i adran 90 (datblygiad gydag awdurdodiad y llywodraeth) ac a102 (gorchmynion sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddod â defnydd adeilad neu waith i ben neu ei newid neu gael gwared arno) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref lle mae hysbysiadau o benderfyniadau wedi cael eu cyhoeddi.

8. Hysbysiadau o Benderfyniadau a Hysbysu am Ddatblygu: Hysbysu am Ddatblygiadau

Pŵer: Rhan 5, Adran 32

Disgrifiad:

8.1 Mae'r pŵer hwn yn darparu ar gyfer y canlynol:

- Bod yn rhaid i unigolyn, cyn dechrau datblygiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer, hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol am y dyddiad y disgwylir i'r datblygiad ddechrau.
- Bod yn rhaid i hysbysiad o'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio gael ei arddangos mewn man neu wrth ei ymyl lle y cyflawnir y datblygiad yn ystod y datblygiad.
- Tybir bod caniatâd cynllunio wedi ei roi yn ddarostyngedig i amod y cydymffurfir â dyletswyddau hysbysu.

8.2 Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn gorchymyn datblygu:

- Bod yn rhaid i'r hysbysiad gynnwys manylion am y caniatâd cynllunio ac unrhyw faterion eraill a nodwyd yn y gorchymyn.
- Ar ba ffurf y bydd yr hysbysiad.
- Ffurf yr hysbysiad a arddangosir ar y safle a bod yn rhaid iddo gael ei arddangos yn unol â'r manylion yn y gorchymyn.

Bwriad Polisi:

8.3 Sicrhau bod datblygwyr yn hysbysu awdurdodau cynllunio lleol am ddyddiad dechrau datblygiadau penodol (y disgwylir iddynt fod yn ddatblygiadau mawr a datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol) a sicrhau bod y datblygwyr yn arddangos copi o'r caniatâd cynllunio perthnasol ar y safle yn ystod y datblygiad.

8.4 Nod y ddeddfwriaeth yw caniatáu i randdeiliaid weld copi o'r caniatâd cynllunio ar y safle datblygu, gan ei gwneud yn haws i gadarnhau a yw'r datblygiad wedi cael ei adeiladu yn unol â thelerau'r caniatâd.

8.5 Bydd y gofynion hefyd yn helpu i fonitro datblygiad drwy helpu i gadarnhau a gyflawnwyd yr holl amodau angenrheidiol cyn i'r datblygiad ddechrau a darparu eglurder o ran gweithredu'r caniatâd, yn enwedig os oes gan un datblygiad ganiatadau lluosog neu lle y gwnaed diwygiadau.

8.6 Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu rhagnodi drwy orchymyn datblygu ffurf a chynnwys yr hysbysiad yn ogystal â sut y caiff yr hysbysiad ei arddangos. Yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, crynhoir y bwriad polisi presennol ynghylch y manylion i'w rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth a'r meini prawf dynodi isod:

Manylyn	**Bwriad Polisi**
Manylion a gynhwysir yn yr hysbysiad o gychwyn datblygiad	Mae A32 yn nodi y bydd yr hysbysiad hwn yn cynnwys manylion am y dyddiad y mae'r datblygwr yn bwriadu dechrau'r datblygiad. Bydd hyn yn galluogi'r ACLl i gadarnhau bod yr holl amodau cyn dechrau perthnasol wedi cael eu cyflawni ac yn helpu i fonitro'r datblygiad. Y bwriad yw y bydd gorchymyn datblygu yn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd safle yn elwa ar fwy nag un caniatâd, i'r hysbysiad nodi pa ganiatâd sy'n cael ei roi ar waith. Disgwylir i A.32 ond bod yn gymwys i ddatblygiadau mawr a datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.
Ffurf yr hysbysiad	Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu rhagnodi sut y caiff ACLlau eu hysbysu am ddechrau'r datblygiad. Gallai hyn fod yn hysbysiad ysgrifenedig drwy lythyr neu e-bost. Opsiwn arall ar gyfer hysbysu fyddai drwy gyfrwng profforma safonol. Bydd dull hysbysu cyson yn hysbysu ACLlau a'r gymuned am y caniatâd cynllunio sy'n cael ei roi ar waith ar y safle - gan ddarparu mwy o eglurder a thryloywder.
Ffurf yr hysbysiad a arddangosir ar y safle a beth fydd yn ei gynnwys	Rhaid arddangos yr hysbysiad ar y safle datblygu neu'n agos ato. Rhaid i'r hysbysiad aros yno yn ystod y gwaith. Bydd angen i'r hysbysiad gynnwys y dyddiad y bydd y datblygiad yn dechrau a manylion y caniatâd cynllunio. Y bwriad yw y byddai'r hysbysiad safle yn cael ei ddiweddaru wrth i'r datblygiad fynd rhagddo er mwyn adlewyrchu, er enghraifft, fod amodau'r caniatâd cynllunio wedi cael eu cyflawni. Mae A.32 yn rhagnodi bod yn rhaid i'r hysbysiad safle fod ar ffurf a nodir mewn gorchymyn datblygu. Gallai hyn fod yn dempled safonol. Mae'n debygol y bydd y gorchymyn datblygu yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad safle gael ei arddangos fel y gellir ei ddarllen yn glir, ei ddiogelu rhag y tywydd, a bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu ei weld yn hawdd.

8.7 Caiff y gorchymyn datblygu ei ategu hefyd gan ganllawiau.

Cydberthynas â phwerau eraill:

Pwerau arfaethedig

8.8 Mae A31 yn ymwneud â ffurf a chynnwys hysbysiadau o benderfyniadau. Mewn perthynas ag A32 bydd yn rhaid i ddatblygwyr sicrhau eu bod yn arddangos, ar y safle, yr hysbysiad o benderfyniad ar gyfer y caniatâd cynllunio perthnasol.

9. Methu â Chydymffurfio â Gofyniad Dilysu Hysbysiad ac Apêl

Pŵer: Rhan 5, Adran 28

Disgrifiad:

9.1 Mae'r pŵer hwn yn darparu ar gyfer y canlynol:

- Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol hysbysu ymgeisydd os credant nad yw'r cais yn cydymffurfio â gofyniad dilysu a orfodir drwy Orchymyn 2012 o dan adran 62 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Deddf 1990).
- Gall ymgeiswyr apelio at Weinidogion Cymru os cyflwynwyd hysbysiad o'r fath - gellir apelio am sawl rheswm.
- Rhaid penderfynu ar apeliadau drwy sylwadau ysgrifenedig.
- Rhaid i Weinidogion Cymru naill ai wrthod yr apêl, neu ddiddymu neu amrywio'r hysbysiad. Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar yr apêl yn derfynol.

9.2 Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- Gwneud darpariaeth ynghylch pa wybodaeth i'w chynnwys yn yr hysbysiad, a sut y caiff yr hysbysiad ei roi.
- Ei gwneud yn ofynnol i unigolyn a benodwyd gan Weinidogion Cymru benderfynu ar yr apêl oni fydd Gweinidogion Cymru yn nodi fel arall.
- Rhagnodi sut y caiff yr apêl ei gwneud.

Bwriad Polisi

9.3 Datrys anghydfodau ynghylch p'un a yw cais yn ddilys yn gyflym drwy gyflwyno proses apelio. Mae cyflwyno proses apelio yn ceisio annog ACLlau i ystyried yn llawn a yw'r wybodaeth y gwnaethant ofyn amdani er mwyn dilysu cais cynllunio yn angenrheidiol. Bydd y dull apelio yn caniatáu i ACLlau ac ymgeiswyr gadarnhau beth yw cais rhesymol mewn perthynas â chynnwys neu ansawdd y wybodaeth a gyflwynwyd.

9.4 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhai ACLlau yn methu â dilysu ceisiadau sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol yn ôl pob golwg. Mae ACLlau hefyd yn dweud bod llawer o'r ceisiadau o safon wael, ac nad oes digon o wybodaeth a manylion ynddynt i'w dilysu.

9.5 Ar hyn o bryd, os bydd ACLl yn penderfynu bod cais yn annilys nid oes gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio. Mae hyn yn achosi oedi yn y broses gwneud cais ac yn aml yn golygu bod yn rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â gofynion ACLl er mwyn i'w cais gael ei ystyried, hyd yn oed os yw'r gofynion yn anghymesur neu'n afresymol.

9.6 Ystyrir y bydd bodolaeth y dull apelio yn arwain at lai o achosion o farnu bod cais yn annilys wrth i ACLlau wneud ceisiadau a ystyriwyd yn fwy gofalus am wybodaeth i ddilysu cais ac wrth i ansawdd y wybodaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr wella.

9.7 Rhagwelir y bydd y broses apelio newydd yn debyg i Adran 78 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, sy'n rhoi'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau am geisiadau cynllunio a methiant i wneud penderfyniadau o'r fath. Mae Adran 78 o'r Ddeddf honno hefyd yn caniatáu i fanylion y weithdrefn apelio gael eu nodi mewn Gorchymyn Datblygu a wnaed gan Weinidogion Cymru.

9.8 Bydd y broses apelio ei hun yn cynnwys ymarfer pen desg cyflym a wneir gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Pan fydd ymgeisydd yn derbyn hysbysiad o farnu bod cais yn annilys, bydd ganddo 14 o ddiwrnodau i apelio. Bydd yr hysbysiad yn sail i sylwadau'r ACLl a bydd apelyddion yn gallu cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Arolygiaeth. Dim ond y materion ger eu bron y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn eu hystyried, ac ni fyddant yn ystyried dilysrwydd cymhwysiad ehangach neu resymoldeb rhestr leol yr ACLl o ofynion. Felly ni ddylai'r penderfyniad ar yr apêl gymryd mwy na thair wythnos o'r dechrau i'r diwedd.

9.9 Bydd y Gorchymyn Datblygu yn darparu manylion am ba wybodaeth a ddylai gael ei darparu gan yr ACLl yn yr hysbysiad o farnu bod cais yn annilys a'r broses apelio. Penderfynir ar yr apêl gan unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru, h.y. Yr Arolygiaeth Gynllunio

Manylyn	Bwriad Polisi
Gwybodaeth i'w chynnwys yn yr hysbysiad	Y nod yw sicrhau bod swyddogion awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried yn llawn a yw'r wybodaeth y maent yn gofyn i ymgeisydd amdani yn ofynnol i ddilysu cais o dan A62. Y bwriad yw y bydd yr hysbysiad o farnu bod cais yn annilys a gyhoeddir gan yr awdurdod cynllunio lleol yn cynnwys: i) y gofyniad dilysu ii) rhesymau'r ACLlau dros ystyried nad yw'r ymgeisydd yn cydymffurfio â'r gofyniad. Gall yr hysbysiad hefyd gynnwys: enw'r ymgeisydd; rhif cyfeirnod y cais a disgrifiad o'r datblygiad; y dyddiad cau ar gyfer gwneud yr apêl a sut i wneud yr apêl. Mae'r hysbysiad yn debygol o gael ei anfon at yr ymgeisydd/asiant drwy e-bost neu lythyr.
Gwneud apêl	Gan fod y broses yn ceisio datrys anghydfodau'n gyflym, bydd y gorchymyn datblygu yn nodi'r ffrâm amser y dylid cyflwyno'r apêl oddi mewn iddi. Ar hyn o bryd, rhagwelir mai 14 o ddiwrnodau o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad fydd hyn. Bydd y gorchymyn datblygu hefyd yn nodi sut y dylai'r apelydd gyflwyno'r apêl a pha wybodaeth y dylent ei darparu er mwyn gwneud yr apêl. Mae'n debygol y bydd y wybodaeth hon yn cynnwys: yr hysbysiad a ddarparwyd gan yr ACLl; copi o'r cais fel y'i darparwyd i'r ACLl; nodi'r rhesymau dros apelio, a manylion cyswllt yr ymgeisydd. Os yw'r apêl yn llwyddiannus nid yw'n golygu yn awtomatig bod y cais yn ddilys. Mae ond yn golygu nad oes angen y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn hysbysiad yr ACLl o farnu bod cais yn annilys er mwyn dilysu'r cais cynllunio.
Unigolyn a benodwyd i benderfynu ar yr apêl	Ar hyn o bryd mae Gweinidogion Cymru yn penodi'r Arolygiaeth Gynllunio i benderfynu ar apeliadau. Y bwriad yw trefnu mai'r Arolygiaeth Gynllunio fydd hefyd yn gyfrifol am benderfynu ar apeliadau lle y bernir bod cais yn annilys. Y bwriad yw y bydd apeliadau lle y bernir bod cais yn annilys yn fwy gweinyddol eu natur nag apeliadau eraill a bydd ganddynt gwmpas cyfyngedig, yn debyg i apeliadau gorfodi. Ni fydd ymweliadau safle yn gysylltiedig â'r apeliadau fel sy'n digwydd gyda'r mwyafrif o apeliadau ar hyn o bryd. Felly, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gallu neilltuo adnoddau er mwyn ymdrin â'r apeliadau hyn drwy ddefnyddio'r ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol.

9.10 Caiff y gorchymyn datblygu ei ategu hefyd gan ganllawiau.

Cydberthynas â phwerau eraill:

Pwerau presennol

9.11 Bydd Adran 28 o'r Bil yn caniatáu apeliadau mewn perthynas â gofynion a wneir o dan Adran 62 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Nodir y gofynion hyn yn erthyglau 5 (Ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio) ac 8 (Darpariaethau Cyffredinol yn ymwneud â cheisiadau) o Orchymyn 2012.

9.12 Mae Erthygl 22(3) o Orchymyn 2012 yn diffinio ystyr cais "dilys". Pan dderbynnir cais dilys gan yr ACLl, mae erthygl 22(1) yn nodi bod yn rhaid penderfynu arno o fewn cyfnod rhagnodedig.

10. Gorfodi: Apeliadau yn erbyn Hysbysiad sy'n Ymwneud â Thir sy'n Amharu ar Amwynder

Pŵer: Rhan 6, Adran 43

Disgrifiad:

10.1 Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- Nodi mewn rheoliadau y camau i'w cymryd mewn cysylltiad â chyflwyno apêl megis pwy i'w hysbysu a sut y dylid gwneud hyn
- Rhagnodi pa wybodaeth y mae angen i apelydd a phartïon eraill sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau'r apêl ei darparu
- Nodi'r amgylchiadau mewn rheoliadau lle y dylid defnyddio'r gweithdrefnau apelio gwahanol megis sylwadau ysgrifenedig neu wrandawiad

Bwriad Polisi

10.2 Nod y newidiadau a gynigir i'r system gorfodi cynllunio yng Nghymru yw sicrhau ei bod yn fwy effeithiol ac effeithlon tra'n atal oedi. Bwriedir i'r newidiadau arfaethedig atal y rhai sy'n gwybod sut i gamddefnyddio'r system gyfredol rhag gwneud hynny, gan wella'r adnoddau sydd ar gael i ACLlau er mwyn helpu i gyflawni ffurfiau derbyniol ar ddatblygiad.

10.3 Mae A43 yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ymdrin ag apeliadau yn erbyn hysbysiad mewn perthynas â thir sy'n amharu ar amwynder o'r Llys Ynadon i Weinidogion Cymru. Nod y ddarpariaeth hon yw gwneud y weithdrefn apelio yn fwy cyson ag apeliadau gorfodi eraill a throsglwyddo cyfrifoldeb i gorff sy'n gyfarwydd â gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar amwynder ac sydd felly mewn sefyllfa well i wrando ar apeliadau o'r fath a chyflawni canlyniadau mwy effeithiol.

10.4 Er bod deddfwriaeth gorfodi wedi'i chynnwys yn bennaf o fewn deddfwriaeth sylfaenol, mae A43 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r dull apelio hwn. Nodir manylion hyn isod.

Manylyn	Bwriad Polisi
Gweinidogion Cymru i wrando ar apêl yn erbyn hysbysiadau sy'n ymwneud â thir sy'n amharu ar amwynder.	Mae A43 yn gwneud Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am benderfynu ar apêl yn erbyn hysbysiad tir anniben (A215 o Ddeddf 1990). Y bwriad yw cysoni'r weithdrefn apelio o dan A217 â'r weithdrefn ar gyfer apeliadau gorfodi eraill y manylir arnynt yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau ac Apeliadau Gorfodi) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003.
Camau sy'n gysylltiedig â gwneud apêl	Mae'r weithdrefn bresennol ar gyfer gwneud apêl gorfodi yn golygu bod yr apelydd yn cwblhau ffurflen gais, gan nodi'r sail dros apelio a'r ffeithiau sy'n ategu'r sail honno yn ei farn ef. Nodir y seiliau dros apelio ar hyn o bryd o dan A217 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ac ni fwriedir iddynt newid. Rhagwelir y bydd rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i apêl gael ei gwneud mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r weithdrefn apelio bresennol ar gyfer hysbysiadau gorfodi. Yn yr un modd, fel gyda'r weithdrefn ar gyfer hysbysiadau gorfodi, ar ôl i'r apelydd gyflwyno'r apêl i Weinidogion Cymru, mae'n debygol y caiff hysbysiad yn nodi ei bod wedi cael ei derbyn ei gyflwyno i'r ACLl gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, gallai'r ddeddfwriaeth o bosibl ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r apelydd gyflwyno hysbysiad i gymdogion ar y safle neu godi hysbysiad ar y safle i hysbysu'r rhai y mae cyflwr y tir yn effeithio arnynt o'r ffaith bod apêl wedi cael ei chyflwyno.
Gwybodaeth i'w darparu mewn cysylltiad ag apêl	Mae'r weithdrefn apelio ar gyfer hysbysiadau gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau gyflwyno copi o'r hysbysiad i Weinidogion Cymru yn ogystal â datganiad yn esbonio'r sail dros gyflwyno'r hysbysiad. Bwriedir i hyn ddigwydd ar gyfer apeliadau A217. Gall apelyddion wneud ail gyfres o sylwadau o fewn y broses apelio. Disgwylir i hyn hefyd gael ei adlewyrchu yn y weithdrefn apelio a ddisgrifir yn y rheoliadau ar gyfer apêl yn erbyn hysbysiad A215. Mae A42 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno gofynion pellach os bydd angen. Er enghraifft, efallai y bydd angen ffotograffau o gyflwr y safle arnynt oddi wrth y ddau barti neu gallant wahodd sylwadau gan drydydd parti.

Y weithdrefn a ddilynir i ystyried apêl	Rhagwelir y gwrandewir ar apeliadau yn erbyn hysbysiadau A215 drwy sylwadau ysgrifenedig, er y gall amgylchiadau godi lle bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen gwrandawiad neu ymchwiliad. Mae Gweinidogion Cymru yn debygol o fod eisiau cynnal ymweliad safle i asesu cyflwr y safle drostynt hwy eu hunain. Nid yw ynadon yn cynnal ymweliadau o'r fath ar hyn o bryd. Gallai rheoliadau fanylu ar yr amgylchiadau lle y byddai pob math o apêl yn berthnasol.

10.5 Caiff y rheoliadau eu hategu gan ganllawiau hefyd.

Cydberthynas â phwerau eraill

Pwerau Presennol

10.6 Mae A43 yn diwygio A217 o Ddeddf 1990, gan wneud Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am wrando ar apeliadau yn erbyn cyflwyno hysbysiad S215 mewn perthynas â thir sy'n amharu ar amwynder. Byddai'r rheoliadau a wneir o dan adran ddiwygiedig A217 yn gyson ag apeliadau gorfodi eraill y manylir arnynt yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau ac Apeliadau Gorfodi) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003.

11. Rhan 6 – Gorfodi, Apeliadau Ac ati.: Costau ceisiadau, apeliadau a chyfeiriadau

Pŵer/Pwerau: Rhan 6, Adrannau 44, 46 ac Atodlen 5

[322C o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990]

Disgrifiad:

11.1 Mae'r pwerau hyn:

- Yn cydgrynhoi darpariaethau costau presennol a geir mewn deddfiadau eraill ar hyn o bryd;
- Yn caniatáu i'r gost weinyddol gyfan yr eir iddi mewn cysylltiad â gweithdrefn benodol gael ei hawlio;
- Yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi nifer ddyddiol safonol ar gyfer achosion sy'n cynnwys ymchwiliad neu wrandawiad neu achosion a ystyrir ar sail sylwadau ysgrifenedig gan reoliadau.

Bwriad Polisi:

11.2 Caiff ymchwiliadau cyhoeddus a gwrandawiadau mewn perthynas â cheisiadau, apeliadau neu gyfeiriadau at Weinidogion Cymru ("ceisiadau a gaiff eu galw i mewn") eu gweinyddu gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru a'u cadeirio gan arolygydd cynllunio annibynnol sydd hefyd yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniad yr archwiliad. Ar hyn o bryd, dim ond yr ymgeisydd/apelydd neu'r awdurdod cynllunio lleol a all hawlio costau.

11.3 Y bwriad polisi yw sicrhau trefn costau fwy hyblyg, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru a phartïon eraill mewn apêl/cais i adennill eu costau eu hunain. Gall yr Arolygiaeth Gynllunio adennill costau ar gyfer archwilio apêl neu gais, gan gynnwys eu costau gweinyddol a chostau lle na chynhelir gwrandawiad llafar nac ymchwiliad. Gall hyn fod yn unol â thaliadau a nodir mewn rheoliadau.

11.4 Yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, crynhoir y bwriad polisi presennol ynghylch y manylion i'w rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth isod:

Maes	Disgrifiad
Cyfradd ddyddiol safonol ar gyfer gwrandawiad neu ymchwiliad.	Caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi cyfraddau safonol i adennill costau gweinyddol cyfan Gweinidogion Cymru. Bydd y costau hynny'n cynnwys: • Cyfradd ddyddiol safonol ar gyfer yr unigolion sy'n ymwneud â'r achos; • Treuliau yr eir iddynt, gan gynnwys teithio, llety a chynhaliaeth; • Costau cyfreithiol neu alldaliadau y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddynt; • Costau perthnasol eraill. Bydd y symiau safonol hynny yn destun ymchwil bellach gan Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio a byddant yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Cydberthynas â phwerau eraill:

Pwerau presennol

11.5 Caiff y pwerau a ddisgrifir uchod ar gyfer costau ceisiadau, apeliadau a chyfeiriadau eu rhagnodi fel rheoliadau newydd.

11.6 Mae rheoliadau cyfredol yn darparu ar gyfer cymhwyso cyfraddau dyddiol, gweler Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011: OS Rhif 2415. Mae hyn yn rhagnodi symiau ar gyfer archwilio cynlluniau datblygu lleol. Rhagwelir y bydd y rheoliadau newydd yn adlewyrchu'r darpariaethau hynny a gynhwysir yno, yn amodol ar addasiadau.

12. Gorfodi, Apeliadau Ac ati.: Gweithdrefn ar gyfer achosion penodol

Pŵer/Pwerau: Rhan 6, Adran 45 ac Atodlen 5.

[Adran 323A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990]

Disgrifiad:

12.1 Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- Ragnodi'r weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad ag ymchwiliad neu wrandawiad drwy reoliadau;
- Rhagnodi'r weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad â thrafodion ar gais, apêl neu gyfeiriad a ystyrir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan ar sail sylwadau yn ysgrifenedig, drwy reoliadau;
- Darparu, mewn amgylchiadau rhagnodedig, na all mater gael ei godi mewn trafodion ar apêl a wneir i Weinidogion Cymru oni fydd wedi cael ei godi o'r blaen cyn amser rhagnodedig neu os dangosir na allai fod wedi cael ei godi cyn yr amser hwnnw, drwy reoliadau.

Bwriad Polisi:

12.2 Caiff ymchwiliadau cyhoeddus a gwrandawiadau mewn perthynas ag apeliadau neu geisiadau a gaiff eu galw i mewn eu gweinyddu gan yr Arolygiaeth Gynllunio a'u cadeirio gan arolygydd cynllunio annibynnol, yn unol â rheolau'r weithdrefn. Rhaid i apêl neu gais a gaiff ei alw i mewn ddilyn un o'r gweithdrefnau canlynol:

- Sylwadau ysgrifenedig;
- Gwrandawiad cyhoeddus; neu
- Ymchwiliad cyhoeddus.

12.3 Ar hyn o bryd, yr Arglwydd Ganghellor sy'n gwneud rheolau'r gweithdrefnau ar gyfer gwrandawiadau ac ymchwiliadau, ond Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y rheolau ar gyfer achosion yn dilyn fformat y sylwadau ysgrifenedig. Pan fydd apêl neu gais a gaiff ei alw i mewn yn destun cymhlethdod mewn un maes, gall Arolygydd benderfynu bod achos cyfan yn dilyn

gweithdrefn lafar. Gall materion newydd gael eu codi hefyd yn ystod apêl, a all o bosibl ychwanegu amser ac oedi at wneud penderfyniad.

12.4 Y bwriad polisi yw gwneud un set o reolau gweithdrefnau yn lle'r pedair set gyfredol o reolau (ym Mharagraff 12.11). Y bwriad yw y bydd un set o reolau gweithdrefnau yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddefnyddio sawl dull gweithredu (y tair gweithdrefn a grybwyllwyd eisoes) wrth archwilio apêl neu gais a gaiff ei alw i mewn. Er enghraifft, gall apêl gael ei hystyried drwy sylwadau ysgrifenedig; fodd bynnag, gall maes arbennig o gymhleth olygu bod angen rhoi tystiolaeth ar lafar. Mae hyn yn galluogi'r broses i fod yn fwy hyblyg ac effeithlon.

12.6 Mae angen diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer sylwadau ysgrifenedig, ymchwiliadau cyhoeddus a gwrandawiadau cyhoeddus i adlewyrchu'r ffaith bod gan Weinidogion Cymru neu unigolion a benodwyd yr hyblygrwydd i ddefnyddio sawl dull gweithredu wrth benderfynu ar fater.

12.7 Bydd y ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymdrin â cheisiadau, apeliadau a cheisiadau a gaiff eu galw i mewn mewn modd effeithlon a thryloyw, tra'n cynnal hyblygrwydd drwy atal newidiadau i gais cyn apêl, a thrwy benderfynu ar y cais ar sail y materion gerbron yr Awdurdod Cynllunio Lleol heblaw am achosion lle na fyddai wedi bod yn bosibl codi gwybodaeth newydd yn gynharach.

12.8 Mae'r pwerau hyn yn sicrhau bod yr apêl yn ymdrin â'r cais ar y ffurf y cafodd ei hystyried gan yr ACLl a'r gymuned leol, ac ar sail yr un wybodaeth.

12.9 Yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, crynhoir y bwriad polisi presennol ynghylch y manylion i'w rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth isod:

Maes	**Disgrifiad**
Rheolau gweithdrefnau cyfunol	Y bwriad yw cyfuno'r rheolau gweithdrefnau presennol yn un set o reolau, i adlewyrchu'r ffaith bod Gweinidogion Cymru neu'r Arolygiaeth yn defnyddio cymysgedd o weithdrefnau i benderfynu ar achos. Bydd y rheolau gweithdrefnau newydd yn: • Cynnwys darpariaeth am y weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad â materion cyn neu wedi ymchwiliad, gwrandawiad neu sylwadau ysgrifenedig, ac am weithrediad trafodion;

	• Cynnwys darpariaeth am y weithdrefn i'w dilyn pan fydd camau wedi'u cymryd o ran cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad nad yw'n digwydd; • Cynnwys darpariaeth am y weithdrefn i'w dilyn pan fydd camau wedi'u cymryd o ran penderfynu ar unrhyw fater gan unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru a bod y trafodion yn destun cyfarwyddyd bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar y mater yn lle hynny; • Cynnwys darpariaeth am y weithdrefn i'w dilyn pan roddir cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu ar rai materion, ac unrhyw gyfarwyddyd pellach yn dirymu'r cyfarwyddyd hwnnw; • Caniatáu i Weinidogion Cymru neu'r Arolygiaeth gyfarwyddo bod gwybodaeth benodol yn cael ei chyflwyno o fewn ffrâm amser benodol; • Golygu y gellir mynd ymlaen i wneud penderfyniad heb ystyried unrhyw beth a gyflwynwyd y tu allan i'r amserlen benodedig.
Rhagnodi amgylchiadau lle y gellir codi materion newydd mewn apêl.	Rhaid penderfynu ar apêl ar sail y materion a oedd gerbron yr awdurdod cynllunio lleol pan wnaeth ei benderfyniad ac eithrio pan na ellid bod wedi cyflwyno gwybodaeth newydd yn gynharach neu pan na chyflwynwyd gwybodaeth newydd oherwydd amgylchiadau eithriadol. Ni fwriedir rhagnodi amserlen na ffenestr y gellir codi materion newydd ynddi cyn i apêl gael ei harchwilio. Fodd bynnag, cynigir bod amgylchiadau'n cael eu rhagnodi lle y gellir codi materion newydd. Gall yr amgylchiadau hynny gynnwys mabwysiadu polisi cynllunio lleol neu genedlaethol newydd neu ddiwygiedig yn dilyn hysbysiad o apêl neu wrthod cais. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth newydd am gyflwr amgylcheddol safle yn dod i'r golwg yn dilyn ymchwiliadau parhaus neu ar ôl sefydlu cynefinoedd newydd ar y safle. Bydd yr ystod lawn o amgylchiadau yn destun ymchwil bellach ac ymgynghori â'r cyhoedd.

Cydberthynas â phwerau eraill:

12.10 O 12 Tachwedd 2014 bydd adran 319B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, adran 88E o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ac adran 21B o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 yn galluogi Gweinidogion Cymru neu'r Arolygiaeth Gynllunio i benderfynu ar weithdrefn apêl, yn hytrach na bod y weithdrefn yn cael ei nodi gan yr ymgeisydd/apelydd.

Pwerau presennol

12.11 Y rheolau gweithdrefnau presennol yw:

- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 (OS 2003 Rhif. 390;

- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Gwrandawiadau) (Cymru) 2003 (OS 2003 Rhif 1271;

- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003, OS 2003 Rhif 1266; ac (yn gymwys i apeliadau o dan Adrannau 78-79 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ac apeliadau o an Adrannau 20-22 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

- Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfyniad gan Arolygwyr) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2003, OS 2003 Rhif 1267.

12.12 Caiff y rhain eu disodli gan set gyfunol o reolau gweithdrefnau sy'n golygu y gellir cael cymysgedd o weithdrefnau. Bydd y rhain yn seiliedig ar y rheolau hynny a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer ymchwiliadau, gwrandawiadau a sylwadau yn ysgrifenedig a byddant yn gymwys i apeliadau a cheisiadau a gaiff eu galw i mewn o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac apeliadau a cheisiadau a gaiff eu galw i mewn angenrheidiol o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.

13. Meysydd Tref a Phentref

Pŵer/Pwerau: Rhan 7, Adrannau 47, 48, 49, 50 ac Atodlen 6.

[Adrannau 15, 15A, 15C, 24 ac Atodlen 1B o Ddeddf Tiroedd Comin 2006]

Disgrifiad:

13.1 Mae'r pwerau hyn yn gwneud newidiadau i'r broses ar gyfer cofrestru Meysydd Tref neu Bentref. Gwnânt y diwygiadau canlynol:

- Lleihau'r cyfnod y gellir gwneud cais i gofrestru Maes Tref neu Bentref ynddo, ar ôl i'r defnydd ddod i ben "fel hawl", o ddwy flynedd i un;
- Galluogi tirfeddiannwr i gyflwyno datganiad a map ar ffurf ragnodedig i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin er mwyn rhoi caniatâd i bob diben i ddefnyddio ei dir at ddibenion hamdden heb y perygl y caiff cais i gofrestru Maes Tref neu Bentref ei gyflwyno;
- Diystyru'r hawl i wneud cais i gofrestru Maes Tref neu Bentref mewn amgylchiadau rhagnodedig;
- Gwneud darpariaeth ychwanegol mewn perthynas â ffioedd i gofrestru Maes Tref neu Bentref.

Bwriad Polisi:

13.2 Mae'r system ar gyfer cofrestru meysydd tref neu bentref yn gweithio'n annibynnol ar y system gynllunio. Nodwyd bod y diffyg integreiddio hwn yn broblem, gan fod achosion cynyddol o ddefnyddio'r system cofrestru Meysydd Tref neu Bentref fel ffordd o rwystro datblygiad yn hytrach nag at ddiben diogelu ardal benodol o dir. Pan fydd cais i gofrestru maes trefol neu bentrefol wedi llwyddo, bydd y tir wedyn yn cael ei ddiogelu'n barhaol ac ni ellir ei ddatblygu oni chychwynnir achos prynu gorfodol cymhleth.

13.3 Cynigir cyfres o welliannau i Ddeddf Tiroedd Comin 2006, yn debyg i'r rhai a weithredwyd yn Lloegr, i ddileu'r gorgyffwrdd rhwng y ddwy broses hyn. Bydd y diogelwch cryf sy'n bodoli ar gyfer meysydd tref neu bentref cofrestredig yn parhau'n ddigyfnewid. Caiff agweddau gweithdrefnol a thechnegol yn ymwneud â'r gwelliannau/diwygiadau hyn eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, y nodir eu manylion yn y tabl isod.

13.4 Cynigir newidiadau canlyniadol eraill hefyd, yn ymwneud â ffioedd a'r cyfnod y gellir cofrestru Maes Tref neu Bentref ynddo, i fod yn gydradd â'r sefyllfa yn Lloegr.

13.5 Yn amodol ar ymgynghoriad â rhanddeiliaid, crynhoir y bwriad polisi presennol ynghylch y manylion i'w rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth isod:

Maes	**Disgrifiad**
Datganiad gan berchennog i ddod â defnydd i ben fel hawl [*a.15A*]	Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cofrestru tiroedd comin gymryd camau rhagnodedig mewn perthynas â llunio datganiad a map ategol y mae'n rhaid i ymgeisydd eu cyflwyno ar ffurf ragnodedig. Y bwriad yw gwneud rheoliadau sy'n debyg i Reoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) a Phriffyrdd Penodedig (Datganiadau Tirfeddianwyr) (Lloegr), OS Rhif 1774. Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi'r awdurdod cofrestru tiroedd comin i bennu ffi ar gyfer cofrestru datganiad. Mae'r rheoliadau yn nodi gofynion o ran ffurf ceisiadau o'r fath, gan gynnwys ffurflen gais ragnodedig, y gofynion o ran graddfa ar gyfer map ategol. Mae'n bosibl i dirfeddiannwr gyflwyno cais cyfun i adneuo datganiad o hawl tramwy o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 gyda datganiad ar gyfer Maes Tref neu Bentref o dan Ddeddf Tiroedd Comin 2006, ac y caiff y cais cyfun ei drin fel un a roddwyd i awdurdod priodol ar yr un pryd â chais i adneuo datganiad a map neu gyflwyno datganiad o dan adran 31(6) o Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae'r rheoliadau hefyd yn rhagnodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdod sy'n derbyn cais o'r fath eu cymryd ar ôl derbyn cais a wnaed yn ddilys. Byddant hefyd yn rhagnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r gofrestr datganiadau ei chynnwys a'r amgylchiadau lle y gall datganiad gael ei ddileu o'r gofrestr.
Eithrio hawl i wneud cais i gofrestru [*a.15C*]	Mae'r adran hon yn mewnosod Atodlen 1B yn Neddf Tiroedd Comin 2006. Mae'n cynnwys nifer o ddigwyddiadau sbarduno a therfynu lle na ellir gwneud cais i gofrestru Maes Tref neu Bentref. Gall Gweinidogion Cymru ddiwygio, dileu neu ychwanegu digwyddiadau sbarduno a therfynu at Atodlen 1B drwy orchymyn.

	Nid oes unrhyw fwriad i lunio offeryn statudol i ddiwygio Atodlen 1B ar hyn o bryd. Byddai unrhyw fwriad i wneud hynny yn destun ymgynghoriad a chymeradwyaeth ar wahân.
Ceisiadau i ddiwygio cofrestrau: pŵer i ddaparu ar gyfer ffioedd [*a.24*]	Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am ffi a fydd yn daladwy i'r unigolyn y gwneir y cais iddo ac i'r unigolyn y caiff y cais ei benderfynu ganddo (os yw'n wahanol). Nid oes unrhyw fwriad i bennu ffioedd mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru Meysydd Tref neu Bentref ar hyn o bryd. Byddai unrhyw fwriad i wneud hynny yn destun ymgynghoriad a chymeradwyaeth ar wahân.

13.6 Caiff y bwriad polisi uchod ei ategu gan ganllawiau.

Cydberthynas â phwerau eraill:

Pwerau presennol

13.7 Mae gweithdrefnau presennol sy'n ymwneud â chofrestru Meysydd Tref neu Bentref wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Dadgofrestru a Chyfnewid Tir Comin a Meysydd Tref neu Bentref (Gweithdrefn) (Cymru) 2012. Er nad y bwriad yw codi ffioedd am geisiadau Meysydd Tref neu Bentref ar hyn o bryd, byddai unrhyw ddarpariaeth yn ymwneud â'r rheini, o dan a.24 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006, OS Rhif 738, yn cael eu cynnwys yma.

13.8 Mae angen offeryn statudol newydd i ragnodi ffurf, cynnwys a ffioedd ar gyfer datganiadau tirfeddianwyr. Y bwriad yw gwneud rheoliadau sy'n debyg i Reoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) a Phriffyrdd Penodedig (Datganiadau Tirfeddianwyr) (Lloegr), OS Rhif 1774.

14. Amserlen a ragwelir ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth

Is-ddeddfwriaeth	Dyddiad dechrau'r gwaith a ragwelir	Dyddiad y rhagwelir y bydd mewn grym
Rheoliadau i Sefydlu PCS	Mae hyn yn dibynnu ar amseriad y cyfarwyddiadau a wneir gan Weinidogion Cymru	
Rheoliadau CDS	08/2014	04/2017
Rheoliadau CDLl	10/2014	03/2016
DMPO i gynnwys:		
• Dilysu • Hysbysiadau o Benderfyniadau • Hysbysu am Ddatblygiadau	12/2014 12/2014 12/2014	03/2016 03/2016 03/2016
Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i gynnwys:		
• Rheoliadau ar Feini Prawf • Rheoliadau ar Ffioedd • Rheoliadau Cyffredinol • Gorchymyn Cyffredinol • Rheolau Gweithdrefnau • Rheoliadau AEA • Rheoliadau caniatadau cysylltiedig	Dechreuwyd Y Gwaith Dechreuwyd Y Gwaith Dechreuwyd Y Gwaith Dechreuwyd Y Gwaith Dechreuwyd Y Gwaith Dechreuwyd Y Gwaith Dechreuwyd Y Gwaith	01/2016 01/2016 01/2016 11/2014 01/2016 01/2016 01/2016
Opsiwn i Gyfarwyddo i gynnwys: • Rheoleiddio • Gorchymyn	09/2015 09/2015	04/2017 04/2017
Adran 215 Rheoliadau Apeliadau	09/2015	03/2016
Costau Ceisiadau, Apelau a Chyfeiriadau	07/2015	06/2016

Rheoliadau Gweithdrefn Apeliadau	07/2015	06/2016
Gweithdrefn Apeliadau:		
• Diwygiadau DMPO • Rheoliadau Sylweddau Peryglus • Rheoliadau Adeiladau Rhestredig	07/2015 07/2015 07/2015	06/2016 06/2016 06/2016
Datganiad Meysydd Tref neu Bentref	07/2015	10/2016